



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

*Adroddiad Tîm Diogelu Iechyd ar gyfer Pwyllgor Craffu
Cyngor Sir Ynys Môn*

*Health Protection Team Report for Isle of Anglesey
County Council Scrutiny Committee*

Dr Chris Whiteside
Meddyg Ymgynghorol mewn Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Consultant in Communicable Disease Control
Public Health Wales

17 Mehefin/ June 2013

Pwy ydym ni?

Who are we?

- Tîm Diogelu Iechyd Gogledd Cymru (HPT)
- Rhan o HPT Cymru gyfan
- Wedi'n lleoli yn Preswylfa, Yr Wyddgrug, swyddfa 9-5
- Tîm yn cynnwys (cyfateb amser llawn)
 - 1.6 CCDCs
 - 2.6 nyrs
 - 1 nyrs imiwneiddio arbenigol
 - 2.0 staff gweinyddol
 - 1 dadansoddwr goruchwyliaeth
- CCDCs yn 'swyddogion priodol' ar gyfer clefydau trosglwyddadwy i'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru
- North Wales Health Protection Team (HPT)
- Part of all-Wales HPT
- Based in Preswylfa, Mold, office 9-5
- Team consists of (WTE)
 - 1.6 CCDCs,
 - 2.6 nurses,
 - 1 specialist immunisation nurse,
 - 2.0 admin staff
 - 1 surveillance analyst
- CCDCs are 'proper officers' for communicable diseases for the 6 North Wales LAs

Beth ydym yn ei wneud? *What do we do?*

- Derbyn hysbysiad o glefydau sy'n heintus i bobl er mwyn gweithredu
- Mae hysbysiad yn ofyniad cyfreithiol dan Reoliadau Diogelu Iechyd 2010
- Y nod yw canfod a rheoli tarddiad yr haint, a'i atal rhag lledaenu i bobl eraill
- Enghreifftiau o heintiau yn cynnwys gwenwyn bwyd, y frech goch, y ffliw
- Arwain ymatebion i reoli achosion
- Receive notifications of human infectious diseases for action
- Notification is a legal requirement under the Health Protection Regulations 2010
- The aim is to identify and control a source of infection, and to prevent spread to others
- Examples of infections include food poisoning, measles, influenza
- Lead outbreak control responses

Beth ydym yn ei wneud? (2)

What do we do?

- Cyngori a darparu hyfforddiant ar faterion brechu
- Ymateb i ddigwyddiadau a bygythiadau cemegol ac amgylcheddol
- Cymryd rhan mewn cynllunio ar gyfer argyfwng ynghyd ag asiantaethau eraill
- Darparu addysg a hyfforddiant
- Mae CCDCs yn cymryd rhan mewn gwasanaeth ar-alwad 24/7 Cymru Gyfan
- Asiantaethau partner yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd, Meddygon Teulu, microbiolegwyr, gwasanaethau brys, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, cwmnïau dŵr, Cyfoeth Naturiol Cymru (Ebrill 2013)
- Advise and provide training on vaccination issues
- Respond to chemical and environmental incidents and threats
- Participate in emergency planning alongside other agencies
- Provide teaching and training
- CCDCs participate in all-Wales on call service 24/7
- Partner agencies include LAs, Health Board, GPs, microbiologists, emergency services, Public Health England, water companies, Natural Resources Wales (Apr 2013)

Hysbysiad – gwenwyn bwyd *Notifications – food poisoning*

	Ynys Môn Anglesey	Gogledd Cymru North Wales	Ynys Môn Anglesey	Gogledd Cymru North Wales
	2012/2013	2012/2013	2011/2012	2011/2012
Cryptosporidiwm Cryptosporidium	15	142	10	98
Campylobacter	133	951	99	855
Escherichia coli	0	6	13	23
Salmonella Salmonela	22	80	7	81

Hysbysiad– clefydau y gellid brechu i'w hatal *Notifications – vaccine preventable diseases*

	Ynys Môn Anglesey	Gogledd Cymru North Wales	Ynys Môn Anglesey	Gogledd Cymru North Wales
	2012/2013	2012/2013	2011/2012	2011/2012
Clwy'r Pennau Mumps	16 (2)	147 (33)	10 (1)	137 (25)
Y Frech Goch Measles	10 (0)	147 (38)	9 (1)	112 (32)
Rwbela Rubella	1 (0)	7 (0)	0 (0)	15 (0)
Hepatitis B	1	39	1	37
Hepatitis C	8	91	10	111
Y Pâs Whooping cough	71 (19)	192 (80)	3 (3)	20 (17)

Ffigyrau mewn cromfachau yn cyfeirio at achosion a gadarnhawyd mewn labordai

Figures in brackets are laboratory confirmed cases

Hysbysiadau – arall

Notifications – other

	Ynys Môn Anglesey	Gogledd Cymru North Wales	Ynys Môn Anglesey	Gogledd Cymru North Wales
	2012/2013	2012/2013	2011/2012	2011/2012
Clefyd y lleng filwyr Legionella	3	9	2	8
Llid yr Ymennydd Meningitis	9	32	3	39
Y dwymyn goch Scarlet fever	1	66	3	69
Tiwberciwlosis Tuberculosis	4	24	0	19
Y dwymyn waedliful firaol – hantavirus Viral haemorrhagic fever – hantavirus	0	1	0	0

Enghreifftiau Ynys Môn

Anglesey examples

- Cynllunio argyfwng Wylfa gan gynnwys tabledi iodid ar gyfer yr ardal leol
- Achosion o glefydau
 - er enghraifft, mewn ysgolion: TB, cosi gwyllt, clwy'r pennau
- Safleoedd diwydiannol ac ôl-ddiwydiannol e.e. Mynydd Parys:
 - cefnogaeth i SIOion
- Cyngor brechu arbenigol ar gyfer Meddygon Teulu
- Wylfa emergency planning including iodine tablets for local area
- Disease outbreaks and incidents
 - for example in schools: TB, scabies, mumps
- Industrial and post-industrial sites e.g. Parys Mountain:
 - support to EHOs
- Vaccination specialist advice for GPs



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Achosion y Frech Goch Gog. Cymru 2012 *Measles outbreak North Wales 2012*

- Yn Chwefror 2012 cafwyd achosion o'r frech goch yn ardal Porthmadog a Phenrhyn Llŷn.
- Canfod yr achosion cyntaf mewn ysgol uwchradd yn yr ardal, wedyn yn lledaenu i'r gymuned ehangach.
- 56 achos wedi'i gadarnhau ac 8 achos tebygol o'r frech goch yn gysylltiedig â'r cyfnod, a'r rhan fwyaf o'r rhain â hanes o frechiad heb ei gwblhau yn erbyn y clefyd. Ni adroddwyd am unrhyw farwolaeth o ganlyniad i'r achosion.
- In February of 2012 an outbreak of measles occurred around Porthmadog and the Lleyrn Peninsula.
- Cases were first identified in a secondary school in the area, and later spread to members of the wider community.
- 56 confirmed and 8 probable cases of measles were linked to the outbreak, with the majority of these having an incomplete history of vaccination against the disease. No fatalities were reported as part of the outbreak.

Y frech goch 2012 (2)

Measles 2012

- Mesurau rheoli i gyfyngu ar ledaeniad y firws yn cynnwys : rhoi cyngor ar gadw dan waharddiad; brechu yn erbyn y clefyd, a; chyfathrebu parhaus i hysbysu ac addysgu'r cyhoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol.
- Cynnal sesiynau brechu wedi'u targedu mewn ysgolion lleol i gyfyngu ar y posibilrwydd o'r clefyd yn lledaenu ac i ddiogelu'r rhai oedd mewn peryg o gael eu heintio fwyaf.
- Control measures to limit the spread of the measles virus consisted of: providing exclusion advice; vaccination against the disease, and; continued communication to inform and educate the public and health professionals alike.
- Targeted vaccination sessions were held in local schools to limit the potential spread and to protect those most at risk of infection.

Dosbarthiad daearyddol
o achosion y frech goch yng
Ngogledd Cymru Ion– Meh 2012


Geographical distribution
of measles cases in
North Wales Jan-Jun 2012

- Achos tebygol/
Probable case
- Achos cadarn
Confirmed case

Crown copyright and database right 2012. Ordnance Survey 100044810.

Produced by Public Health Wales

08 June 2012



Achosion o'r Frech Goch Abertawe 2013

Measles outbreak Swansea 2013

- Achosion o'r frech goch mewn plant ysgol uwchradd yn cychwyn yn Abertawe Medi 2012
- Erbyn canol Ebrill 2013
 - Dros 700 wedi cael diagnosis
 - 52 wedi bod yn yr ysbyty
 - > 140 o ysgolion wedi'u heffeithio
- Achosion ym Mawrth 2013 mewn ysgol yng Ngogledd Powys
- Achosion yn debygol yn fuan mewn ysgolion yng Ngogledd Cymru, ac mae'n rhaid i ni fod yn barod amdanynt
- A measles outbreak in secondary school children started in Swansea in Sept 2012
- By mid April 2013
 - Over 700 cases diagnosed
 - 52 hospitalisations
 - > 140 schools affected
- Outbreak March 2013 in North Powys school
- Cases are likely to occur soon in North Wales schools, and we must be prepared for outbreaks

2013 – hyd yma

- 81 hysbysiad clinigol
- 5 achos wedi'u cadarnhau mewn labordy

2013 - to date

- 81 clinical notifications
 - 5 laboratory confirmed cases
-


Achosion o'r Frech Goch 2013

Measles outbreak 2013

- Beth all Awdurdodau Lleol ac ysgolion wneud?
 - Hybu rhieni i roi brechiad MMR i'w plant
 - Llythyr wedi cael ei anfon at AALI
 - Bod yn ymwybodol o symptomau'r frech goch
 - Sicrhau bod plant sy'n sâl efo'r frech goch yn cael eu cadw adref
 - Cynnal sesiynau brechu mewn ysgolion lle nad oes llawer wedi cael brechiad
 - Sicrhau bod staff wedi'u diogelu rhag y frech goch
- What can LEAs and schools do?
 - Promote MMR uptake with parents
 - Letter has been circulated to LEAs
 - Be aware of symptoms of measles
 - Ensure exclusion of children who are ill with measles
 - Vaccination sessions are being held at schools where uptake is low
 - Ensure that staff are protected against measles

Gwaith gwella iechyd Ynys Môn *Anglesey health improvement work*

- Talebau cyfeirio ymarfer corff ar gyfer merched beichiog trwy ganolfannau hamdden Ynys Môn
- Ymgyrchoedd hysbyseb bws am ysmegu yn ystod beichiogrwydd a gwerthu alcohol trwy ddirprwy
- Prynwyd deunyddiau newydd ar gyfer addysg iechyd ar gyfer pob ysgol gynradd
- Babanod Awyr Iach: rhoi thermomedrau meithrinfa i ferched beichiog a mamau newydd, â rhybuddion ysmegu
- Exercise referral vouchers for pregnant women through Anglesey leisure centres
- Bus advert campaigns on smoking in pregnancy and proxy alcohol sales
- New materials for health education bought for all primary schools
- Clean Air Babies: nursery thermometers given out to pregnant women and new mothers, with smoking warnings



*Lansio
talebau
cyfeirio
ymarfer corff
ym Mhlas
Arthur*

20.3.2013

*Launch of
exercise
referral
vouchers at
Plas Arthur*